

At sylw:
Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru

23 Hydref 2023

Ysgoloriaethau Ymchwil 2024/25

Annwyl Gydweithiwr

Ysgrifennaf atoch ar ran y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'ch gwahodd i gyflwyno ceisiadau ar gyfer Ysgoloriaethau Ymchwil cyfrwng Cymraeg y Coleg.

Un o nodau creiddiol y cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil ers y cychwyn cyntaf oedd meithrin cenhedlaeth newydd o arbenigwyr academiaidd oedd yn gallu trin a thrafod eu maes yn hyderus yn y Gymraeg. Yn ogystal â hyrwyddo ysgolheictod trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ystod fawr o feysydd, mae'r cynllun hwn wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o ddatblygu gweithlu ar gyfer y sector Addysg Uwch a sicrhau bod ymgeiswyr cymwys ar gyfer swyddi academiaidd, ac yn sgil hynny gynyddu ac ehangu darpariaeth addysgu cyfrwng Cymraeg yn y sector.

Mae'r cynllun hefyd dros y blynyddoedd wedi cefnogi sawl prosiect sydd wedi bod o ddiddordeb i wneuthurwyr polisi cyhoeddus yng Nghymru. Croesewir ceisiadau sy'n ymchwilio i themâu sydd o ddiddordeb i'r rhai sy'n llunio polisi Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'r cylch dyfarnu eleni, mae'r Coleg yn gwahodd ceisiadau ar gyfer un ysgoloriaeth benodol i gynnal prosiect ymchwil ar thema neu destun a fydd yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer addysgu'r Gymraeg a datblygu sgiliau iaith Gymraeg mewn ysgolion neu ymhlith y gweithlu addysg. Bydd yr ymchwil hon yn cefnogi gweithrediad cynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru.

Bydd y Coleg yn gobeithio dyfarnu hyd at 10 Ysgoloriaeth Ymchwil i gychwyn ym mlwyddyn academiaidd 2024/25.

Ysgoloriaethau 50% am dair blynedd fydd y rhain fel arfer ac felly hanner cost yr ysgoloriaethau a fydd yn cael ei ddarparu gan y Coleg. Fodd bynnag, mae'r Coleg yn barod i gyllido rhai ysgoloriaethau yn llawn:

- gall bob Cangen enwebu UN cais i dderbyn 100% o'r cyllid oddi wrth y Coleg;
- gall sefydliadau ymgeisio am ysgoloriaeth 100% er mwyn helpu cynyddu capasiti staffio (ond amod o'r ysgoloriaethau hyn yw bod sefydliadau yn creu swydd addysgu neu ymchwil ôl-ddoethurol cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd cyfnod yr ysgoloriaeth);
- bydd y Coleg yn cyllido ysgoloriaethau 100% 'cydraddoldeb ac amrywiaeth' i gefnogi grwpiau sydd ar hyn o bryd wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch ac ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg;
- bydd un ysgoloriaeth 'Cymraeg mewn Addysg' yn derbyn cyllid 100% oddi wrth y Coleg.

Caniateir i sefydliadau unigol gyflwyno hyd at bum cais i gyd, llai unrhyw ysgoloriaethau gwag mae'r Coleg eisoes wedi rhoi caniatâd i'ch sefydliad gario drosodd o'r cylch diwethaf. Os bydd eich sefydliad yn cyflwyno mwy nag un cais, dylech nodi'n glir pa un o'r ceisiadau (os o gwbl) sydd yn enwebiad Cangen am gyllido 100%. Gallwch hefyd rifo'r ceisiadau mewn trefn blaenoriaeth rhag ofn na chefnogid eich dewis cyntaf gan y panel. Ni chaniateir cyflwyno mwy nag un cais o'r un ysgol/adran academaidd.

Ceir gwybodaeth lawn am y broses ymgesio yn ogystal ag amodau a thelerau'r cynllun yn yr atodiad.

Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn **hanner dydd ar 31 Ionawr 2024** drwy eu hanfon yn electronig i d.phillips@colegcymraeg.ac.uk.

Yn gywir iawn,



Dr Dylan Phillips
Uwch Reolwr Academaidd

Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil 2024/25

Proses Ymgeisio

Cyflwyniad

1. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gwahodd ceisiadau am ysgoloriaethau ymchwil cyfrwng Cymraeg, i gychwyn ym mlwyddyn academaidd 2024/25 (ar neu ar ôl 1 Hydref 2024). Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau fydd 31 Ionawr 2024.
2. Yn y ddogfen hon, amlinellir y broses ymgeisio a'r trefniadau ar gyfer cynnal Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mlwyddyn academaidd 2024/25.
3. Ysgoloriaethau 50% am dair blynedd fydd y rhain fel arfer a hanner cost yr ysgoloriaethau a fydd yn cael ei ddarparu gan y Coleg. Rhaid i bob cais ddatgan yn glir bod gweddill cost yr ysgoloriaeth yn cael ei warantu gan y sefydliad sy'n cyflwyno'r cais (gw. cymalau 21-22 isod).
4. Fodd bynnag, mae'r Coleg yn barod i gyllido rhai ysgoloriaethau 100% am dair blynedd dan yr amgylchiadau a ganlyn:
 - i. Ysgoloriaethau Cangen – gall pob Cangen enwebu UN cais i dderbyn 100% o'r cyllid oddi wrth y Coleg. Y sefydliad fydd yn gyfrifol am benderfynu pa un o'r ceisiadau (os o gwbl) yr hoffent eu henwebu ar gyfer cyllid 100%, neu gall sefydliad rifo'r ceisiadau mewn trefn blaenoriaeth (gw. cymalau 23-24 isod).
 - ii. Ysgoloriaethau i gynyddu capasiti staffio – bydd y Coleg yn darparu 100% o gost ysgoloriaeth sydd yn rhan o gynlluniau sefydliad i gynyddu capasiti staffio cyfrwng Cymraeg. Bydd yn rhaid i gais ddangos yn glir fod angen neilltuol wedi ei adnabod yng nghynlluniau'r sefydliad i gynllunio dilyniant (e.e. o ganlyniad i ymddeoliad arfaethedig) neu am ragor o gapasiti staffio er mwyn cyflawni nodau a thargedau darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a bod yn rhaid meithrin unigolion cymwys drwy lwybr doethurol i gyflawni hynny. Bydd hi'n amod o'r dyfarniadau 100% hyn fod y sefydliad yn creu swydd addysgu neu ymchwil ôl-ddoethurol cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd cyfnod yr ysgoloriaeth y gall deiliad yr ysgoloriaeth ymgeisio amdani (gw. cymalau 25-27 isod).
 - iii. Ysgoloriaethau i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth – fel rhan o strategaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth y Coleg, rydym am sicrhau bod

mwy o bobl o gefndir du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, neu sydd ag unrhyw nodweddion gwarchoddedig eraill o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cael mynediad at ac yn derbyn addysg Gymraeg a dwyieithog yn y sectorau addysg bellach, prentisiaethau, ac addysg uwch. Mae rhai o'r grwpiau hyn oddi fewn i gymunedau Cymru hefyd yn cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd mewn ymchwil cyfrwng Gymraeg. Bydd y Coleg yn croesawu ceisiadau sy'n enwebu unigolion cymwys ac yn darparu 100% o'r cyllid ar gyfer dyfarniadau llwyddiannus o'r categori hwn o ysgoloriaeth (gw. cymal 28 isod). Bydd y Coleg hefyd yn croesawu ceisiadau am brosiectau sydd yn ymchwilio i ryw agwedd o gydraddoldeb, amrywiaeth a/neu gwrth-hiliaeth.

- iv. Ysgoloriaeth y Gymraeg mewn Addysg – ar gyfer cylch dyfarnu 2024/25, mae'r Coleg yn cynnig un ysgoloriaeth 100% i gynnal prosiect ymchwil doethurol a fydd yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer addysgu iaith, a/neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog yn effeithiol. Bydd yr ymchwil hon yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc, neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn cefnogi gweithrediad cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg (gw. cymalau 19 a 29 isod).

Ceisiadau

5. Bydd y Coleg yn dyfarnu hyd at ddeg ysgoloriaeth i gychwyn ar neu ar ôl 1 Hydref 2024 yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.
6. Bydd hawl gan bob sefydliad addysg uwch i gyflwyno hyd at bum cais (llai unrhyw ddyfarniadau y rhoddwyd caniatâd i'r sefydliad ei gadw o'r cylch dyfarnu diwethaf), ond dim mwy nag un o'r un ysgol/adran academaidd.
7. Cyflwynir ceisiadau am Ysgoloriaethau Ymchwil gan y sefydliadau a fydd yn cartrefu'r dyfarniadau. Rhaid i Ran 1 y ffurflen gais gael ei llenwi gan yr ysgol/adran academaidd a dylai'r ceisiadau gynnwys manylion llawn am y prosiect ymchwil arfaethedig, a record diweddar yr ysgol/adran academaidd yn goruchwylio myfyrwyr ymchwil.
8. Gall sefydliadau hefyd enwebu **ymgeisydd** neu **ymgeiswyr** fel rhan o'u cais. Mae profiad y cynllun hwn yn y gorffennol yn dangos fod prosiectau ymchwil sydd wedi cael eu llunio o gwmpas ymgeisydd addas a chymwys yn fwy tebygol o lwyddo na phrosiectau lle nas adwaenid deiliad o flaen llaw. Serch hynny, mae'r cynllun hefyd yn derbyn ceisiadau lle nad oes ymgeiswyr wedi eu henwebu.

9. Os oes ymgeisydd yn gysylltiedig â chais, disgwylir i'r darpar fyfyrwr ddilyn prosesau ymgeisio arferol y sefydliad ar gyfer cael ei dderbyn i ymgymryd ag astudiaethau doethurol. Nid oes rhaid i ymgeisydd fod yn fyfyrwr llawn-amser yn yr ysgol/adran academaidd lle bwriedir cynnal yr ymchwil **cyn** bod yn rhan o gais i'r Coleg am ysgoloriaeth (e.e. gall ymgeisydd fod yn fyfyrwr ôl-raddedig mewn sefydliad addysg uwch y tu allan i Gymru, yn dymuno symud o un brifysgol i brifysgol arall, neu fod wedi gadael byd addysg uwch am gyfnod a nawr yn awyddus i ail-gydio mewn astudiaethau ôl-raddedig). Fodd bynnag, bydd gofyn bod yr ymgeisydd wedi derbyn cefnogaeth ffurfiol yr ysgol/adran academaidd lle bwriedir cynnal yr ymchwil cyn cael ei enwebu fel rhan o gais i'r Coleg am ysgoloriaeth. Wedi derbyn y gefnogaeth honno, rhaid i'r ymgeisydd (neu ymgeiswyr, os yw'r sefydliad yn dymuno enwebu mwy nag un unigolyn addas) gwblhau Rhan 2 o'r ffurflen gais.
10. Ar gyfer ceisiadau lle mae ymgeisydd neu ymgeiswyr wedi cael ei/eu (h)enwebu, bydd disgwyl i'r ysgol/adran academaidd ddarparu datganiad o'i blaid / o'u plaid yn Rhan 3.
11. Mae croeso i sefydliadau hefyd gyflwyno ceisiadau **heb enwebu ymgeisydd**. Pe cefnogid cais heb ymgeisydd bydd disgwyl i'r ysgoloriaeth a ddyfarnwyd gael ei hysbysebu'n agored yn y wasg. Bydd modd i sefydliadau gael hyd at flwyddyn o'r dyddiad dyfarnu i recriwtio unigolyn addas ar gyfer ysgoloriaeth 'wag', i ddechrau ar eu hastudiaethau unai ym mlwyddyn academaidd 2024/25 neu 2025/26. Bydd unrhyw ddyfarniadau ysgoloriaeth sy'n cario drosodd i'r flwyddyn ganlynol yn lleihau uchafswm y ceisiadau y bydd modd i'r sefydliad hwnnw ei gyflwyno i'r cylch dyfarnu nesaf.

Meini prawf

12. Dyfernir hyd at ddeg ysgoloriaeth, yn seiliedig ar:
 - (i) y prosiect ymchwil arfaethedig,
 - (ii) cyfraniad dichonol y dyfarniad / deiliad at gyflawni nodau strategol y Coleg,
 - (iii) profiad a record yr ysgol / adran academaidd yn cyfarwyddo gwaith ymchwil, a
 - (iv) rhagoriaeth academaidd yr ymgeisydd (lle'n berthnasol).
13. Bydd y panel dyfarnu yn ystyried ceisiadau mewn dau grŵp – ceisiadau gydag ymgeisydd a cheisiadau heb ymgeisydd. Ystyrir pob cais ar sail y meini prawf a amlinellir yn 12 (i), (ii) a (iii). Rhoddir yr holl geisiadau mewn trefn blaenoriaeth ac os na fydd cais yn deilwng i'w gefnogi ar sail y meini prawf hyn, ni chaiff ei ystyried ymhellach. Bydd y panel dyfarnu hefyd yn ystyried rhagoriaeth academaidd yr ymgeisydd (12 iv) ar gyfer ceisiadau lle mae ymgeisydd neu

ymgeiswyr wedi cael eu henwebu. Pe na bai'r ymgeisydd yn deilwng, gall y panel dyfarnu argymell rhoi'r ysgoloriaeth i'r sefydliad ar yr amod eu bod yn enwebu ymgeisydd mwy cymeradwy, neu benderfynu gwrthod y cais.

14. I ateb y maen prawf cyntaf (i), gofynnir i'r ysgol/adran academaidd ddarparu braslun o'r prosiect ymchwil arfaethedig. Dylid esbonio cyd-destun a gwerth tybiannol y testun ymchwil dan sylw, sut mae'r ymchwil yn wreiddiol, a pha draweffaith neu draweffeithiau posib a ragwelir o gynnal yr ymchwil. Dylid manylu hefyd ar fethodoleg ac amserlen arfaethedig y prosiect er mwyn dangos fod y prosiect arfaethedig ar lefel doethurol a sut fydd yr ymchwil yn cynhyrchu allbwn o ansawdd ac sy'n ysgolheigaidd gadarn.
15. Gall gyfraniad at gyflawni nodau strategol y Coleg (maen prawf ii) fod yn gyfraniad at ysgolheictod a chyhoeddi trwy gyfrwng y Gymraeg, addysgu, creu darpariaeth neu adnoddau addysgiadol newydd, a/neu hyrwyddo'r pwnc fel pwnc astudio cyfrwng Cymraeg. Bydd rhaid i'r cais egluro sut y byddai'r dyfarniad yn ateb nodau strategol ac anghenion cynllunio tymor canolig a hir cyfrwng Cymraeg yr ysgol/adran academaidd, y Coleg, a/neu'r ddisgyblaeth yn ehangach. Dylid dangos sut mae'r cais yn adlewyrchu targedau Cynllun Academaidd Addysg Uwch y Coleg i ddiogelu darpariaeth helaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc, i ddyfnhau'r profiadau dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr, ac i ymestyn y ddarpariaeth i gynulleidfaoedd newydd. Bydd y panel dyfarnu yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth bwysu a mesur gwerth y buddsoddiad mewn ysgoloriaeth i gyflawni amcanion y Coleg.
16. Wrth ddarparu tystiolaeth ar gyfer maen prawf (iii), disgwylir i ysgolion/adranau academaidd grynhai eu record diweddar yn goruchwyllo doethuriaethau. Dylid nodi cyfanswm a chanran y traethodau llwyddiannus a gwblhawyd o fewn yr ysgol/adran yn ystod y bum mlynedd flaenorol. Dylid cynnwys manylion y tîm goruchwyllo arfaethedig yn benodol.

Meysydd blaenoriaeth

17. Bydd yn ofynnol i bob cais, wrth ddarparu tystiolaeth o'r cyfraniad dichonol a ragwelir at gyflawni nodau strategol y Coleg, ddangos sut y bydd y dyfarniad yn gyson â nodau a thargedau Cynllun Academaidd Addysg Uwch y Coleg (2022).
18. Bydd yr ysgoloriaethau yn agored i bob pwnc.
19. Ar gyfer yr ysgoloriaeth a fydd yn cael ei chyllido ym maes 'y Gymraeg mewn Addysg', croesewir ceisiadau am brosiectau ymchwil ar unrhyw thema neu destun sy'n ymwneud ag addysgu'r Gymraeg a datblygu sgiliau iaith Gymraeg mewn ysgolion neu ymhlith y gweithlu addysg. Gallai hyn gynnwys y Gymraeg

fel pwnc, addysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, gweithgareddau cyfoethogi, a gall gynnwys elfen gymharol gyda ieithoedd mewn cyd-destunau eraill. Gw. **Atodiad A**.

20. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd ddiddordeb mewn prosiectau sy'n ymchwilio i themâu sy'n perthnasu i bolisi cyhoeddus yng Nghymru. Wrth gyflwyno cais â gogwydd polisi cyhoeddus, dylid darparu esboniad o werth y prosiect ymchwil arfaethedig i'r gwaith o lunio neu fireinio polisi cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid i'r cais nodi'n glir y maes polisi dan sylw a chroesgyfeirio at ddogfennau polisi penodol yn y disgrifiad o'r prosiect.

Cyllido

21. Bydd y Coleg fel arfer yn darparu 50% o gost yr Ysgoloriaethau Ymchwil, sef hanner cost y ffioedd a hanner cost y grant cynhaliaeth i'r myfyriwr. Wrth gyflwyno cais am ysgoloriaeth, bydd sefydliadau'n ymrwymo'n ddiamod i gynnal gweddill cost yr ysgoloriaeth. Ni fydd y Coleg yn ystyried unrhyw geisiadau lle na ddarperir sicrwydd pendant fod y sefydliad yn derbyn yr amod hon.
22. Gall sefydliad dderbyn cyllid o ffynhonnell arall (e.e. cyngor ymchwil, diwydiant, ayyb) i gyfrannu at weddill cost yr ysgoloriaeth, ond ni chaniateir ceisiadau lle bydd disgwyl i'r ymgeisydd hunan-gyllido ysgoloriaeth (yn llawn neu'n rhannol). Dylai'r cais nodi'n glir pa gorff fydd yn cyllido gweddill yr ysgoloriaeth, ond y sefydliad ei hun fydd yn darparu gwarant am weddill yr ysgoloriaeth ac yn gyfrifol amdani.
23. Ar gyfer cylch dyfarnu 2024/25, bydd y Coleg yn barod i gyllido hyd at 5 o'r Ysgoloriaethau Ymchwil yn llawn am dair blynedd. Gall pob Cangen enwebu UN cais i dderbyn 100% o'r cyllid oddi wrth y Coleg. Y sefydliad fydd yn gyfrifol am benderfynu pa un o'r ceisiadau (os o gwbl) yr hoffent eu henwebu ar gyfer cyllid 100%, a dylid nodi'n glir ar y ffurflen pa gais sydd i'w henwebu gan y Gangen. Gall sefydliad hefyd rifo ceisiadau mewn trefn blaenoriaeth rhag ofn na fydd y dewis cyntaf yn cael ei gefnogi gan y panel.
24. Ni fydd cais sydd wedi cael ei enwebu gan y Gangen am gyllid llawn yn cael ei drin mewn ffordd wahanol gan y panel dyfarnu ac ni chaiff y cais hwnnw ystyriaeth fwy ffafriol na'i ystyried yn fwy o flaenoriaeth na cheisiadau eraill. Ni fydd yr amodau ychwanegol parthed creu swydd ayyb sydd wedi eu nodi yng nghymalau 26-27 isod yn berthnasol i'r ysgoloriaethau Cangen.

25. Yn achos ysgoloriaethau i gynyddu capasiti staffio (4.ii uchod) bydd sefydliad yn gallu ymgeisio am 100% o gost ysgoloriaeth am dair blynedd. Bydd y Coleg yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau lle:
- (i) ceir tystiolaeth o brinder capasiti staffio yn genedlaethol oddi fewn i'r pwnc, a phrinder ymgeiswyr cymwys â'r profiad a/neu'r arbenigedd angenrheidiol i gael eu penodi i swyddi cyfrwng Cymraeg; a/neu lle
 - (ii) ceir tystiolaeth bod y sefydliad yn cynllunio dilyniant ar gyfer ymddeoliad aelod o staff oddi fewn i'r ysgol/adran academaidd, ac yn dymuno penodi olynnydd a fydd yn ymgymryd â dyletswyddau addysgu a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
26. I dderbyn cyllid llawn ar gyfer ysgoloriaethau sydd wedi'u blaenoriaethau yn unol â'r uchod, bydd yn rhaid i'r cais ddangos fod angen neilltuol wedi ei adnabod yng nghynlluniau'r sefydliad ar gyfer rhagor o gapasiti staffio er mwyn cyflawni nodau a thargedau darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a bod yn rhaid meithrin unigolion cymwys drwy lwybr doethurol i gyflawni hynny.
27. Bydd hefyd yn amod o'r ysgoloriaethau hyn fod y sefydliad yn ymrwmo i greu swydd addysgu neu ymchwil ôl-ddoethurol cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd cyfnod yr ysgoloriaeth. Os taw swydd ymchwil ôl-ddoethurol a grëir, disgwylir y bydd cyfrannu at addysgu cyfrwng Cymraeg yn rhan o ddyletswyddau'r deiliad. Bydd y rhain yn swyddi llawn-amser am isafswm o ddwy flynedd y bydd modd i ddeiliaid yr ysgoloriaethau ymgeisio amdanynt. O beidio â chreu swydd yn unol â'r telerau hyn, fe fydd y Coleg yn adhawlio gwerth yr ysgoloriaeth yn llawn oddi wrth y sefydliad. Pe methid â phenodi i'r swydd wedi iddi gael ei chreu, bydd y Coleg yn ad-hawlio o leiaf hanner gwerth yr ysgoloriaeth oddi wrth y sefydliad. Wrth gyflwyno cais am ysgoloriaeth llawn fe fydd y sefydliad yn ymrwmo'n ddiamod i'r telerau hyn.
28. Yn achos ysgoloriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth (4.iii uchod) bydd y Coleg yn darparu 100% o gost yr ysgoloriaeth. Gall sefydliad enwebu unigolyn cymwys sy'n perthyn i grŵp tangynrychioledig mewn addysg uwch (e.e. sydd o gefndir du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig, neu sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig eraill o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010),¹ wrth gyflwyno cais am ysgoloriaeth, neu wrth enwebu unigolyn cymwys ar ôl dilyn proses o hysbysebu a recriwtio ar gyfer ysgoloriaeth oedd heb ymgeisydd yn wreiddiol. Ni fydd rhaid adnabod unigolyn cymwys ymlaen llaw ar gyfer ysgoloriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob achos, felly. Os bydd unigolyn cymwys yn cael ei benodi maes o law i ysgoloriaeth a ddyfarnwyd yn wreiddiol fel ysgoloriaeth 50%, bydd

¹ Mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg uwch restru'r grwpiau tangynrychioledig yn eu sefydliad nhw yn eu cynlluniau mynediad a ffioedd. Yn achos yr ysgoloriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth bydd rhaid i geisiadau / enwebiadau nodi'n glir sut y byddant yn cyfateb i un neu ragor o'r grwpiau tangynrychioledig hynny.

y Coleg yn cynyddu ei gyfraniad ariannol i 100% o gost yr ysgoloriaeth. Fodd bynnag, bydd ceisiadau i'r categori hwn o ysgoloriaeth yn cael eu dyfarnu ar sail y meini prawf ac yn unol â'r drefn sydd wedi'i amlinellu yng nghymalau 12-16 uchod, ac ni fydd ceisiadau i'r categori hwn yn cael eu trin yn fwy ffafriol na cheisiadau eraill.

29. Bydd y Coleg hefyd yn darparu 100% o gost un ysgoloriaeth ym maes y Gymraeg mewn Addysg (4.iv uchod) yng nghylch dyfarniadau 2024/25. Bydd ceisiadau i'r categori hwn o ysgoloriaeth hefyd yn cael eu hystyried a'u dyfarnu ar sail y meini prawf ac yn unol â'r drefn sydd wedi'i amlinellu yng nghymalau 12-16 uchod. Ni fyddant yn cael eu trin yn fwy ffafriol na cheisiadau eraill.
30. Dylid nodi'n glir ar y ffurflen gais pa un ai ysgoloriaeth 50% neu 100% yr ymgeisir amdani, ac ar ba sail; ni fydd modd newid y model cyllido ar ôl cyflwyno cais (heblaw o dan yr amgylchiadau a amlinellir yng nghymal 28 uchod) .
31. Bydd **pob** ysgoloriaeth, beth bynnag fo'r trefniant cyllido, yn ddarostyngedig i holl amodau a thelerau'r cynllun, ac yn gorfod profi gwerth o safbwynt cyfrannu at gyflawni nodau strategol y Coleg. Bydd pob ysgoloriaeth hefyd yn cael ei thrin fel un cyfrwng Cymraeg llawn.

Cyflwyno ceisiadau

32. Dylai sefydliadau sefydlu trefn fewnol ar gyfer derbyn ac ystyried ceisiadau ac, os oes angen, penderfynu ar broses ar gyfer dewis hyd at bum cais i'w cyflwyno i'r Coleg, ac i adnabod unrhyw geisiadau (os o gwbl) sydd i'w henwebu ar gyfer cyllido llawn. Dylai trefn o'r fath fod yn seiliedig ar amserlen glir a fydd yn galluogi'r ceisiadau i gyrraedd y Coleg mewn da bryd.
33. Rhaid i ffurflenni cais gael eu cyflwyno drwy law'r sefydliad gyda llofnod cynrychiolydd ar ran yr ysgol/adran neu goleg/athrofa academaidd lle bwriedir cartrefu'r ymchwil, a llofnod unigolyn awdurdodedig ar ran y sefydliad. Ni dderbynnir ceisiadau gan unigolion o dan unrhyw amgylchiadau.
34. Dylid cyflwyno'r ceisiadau ar y ffurflen briodol (ar ffurf electronig) erbyn hanner dydd ar **31 Ionawr 2024**. **Ni chaniateir ceisiadau hwyr o dan unrhyw amgylchiadau.**
35. **Rhaid i'r ffurflen gael ei chyflwyno yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Ni fydd ceisiadau sydd yn torri'r rheol hon yn cael eu hystyried.**

36. Dylid cadw oddi fewn i'r uchafswm geiriau sydd wedi'u nodi ar gyfer bob rhan yn y ffurflen gais. **Nid fydd y Coleg yn ystyried ceisiadau sy'n mynd dros yr uchafswm geiriau** sydd wedi'u nodi nac yn derbyn unrhyw atodiadau i'r ceisiadau sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol.
37. Os yw sefydliadau yn ansicr o ddilysrwydd cais arfaethedig dylid cysylltu â swyddogion y Coleg am gyngor cyn 15 Rhagfyr 2023. Gwneir pob ymdrech i ddatrys unrhyw faterion cyn y dyddiad cau. Ni ellir sicrhau ymateb i ymholiadau o'r fath a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Dyfarnu

38. Gall y Coleg gyfeirio rhai ceisiadau at arbenigwyr pwnc er mwyn derbyn eu cyngor ar ragoriaeth ysgolheigaid y cais a'r ymgeisydd (os yn berthnasol). Gall y Coleg hefyd benderfynu y dylid cynnal cyfweiliad gydag ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd rhestr fer er mwyn pwysu a mesur cyfraniad tebygol y dyfarniad / deiliad at gyflawni nodau strategol y Coleg, ac i asesu eu gallu ieithyddol os oes amheuan.
39. Bydd argymhellion ar gyfer dyfarnu ysgoloriaethau yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i'w cymeradwyo. Bydd penderfyniad y Bwrdd yn derfynol.

Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil 2024/25

Amodau a Thelerau

1. Yn y ddogfen hon, amlinellir amodau a thelerau Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mlwyddyn academiaidd 2024/25. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl, yn y dyfodol, i ychwanegu amodau a thelerau newydd i'r rheini a nodir yn y ddogfen hon.
2. Dyddiad cychwyn arferol ysgoloriaethau 2024/25 fydd ar neu ar ôl 1 Hydref 2024.

Iaith y traethawd

3. Disgwylir i'r traethawd doethurol gael ei baratoi a'i gyflwyno yn y Gymraeg. Ystyrir traethodau doethurol sy'n cael eu hymchwilio, eu cyfansoddi a'u cyflwyno yn y Gymraeg yn gyfraniad gwerthfawr at ymchwil ac ysgolheictod cyfrwng Cymraeg, ac a all hefyd yn y pen draw arwain at gyhoeddiadau academiaidd yn y Gymraeg.
4. Ni fydd unrhyw eithriad i'r disgwyliad hwn. Os bydd ysgol/adran academiaidd yn torri'r amod hwn gall y Coleg ofyn am ad-daliad llawn o'r cyllid a ddarparwyd ar gyfer yr ysgoloriaeth. Bydd y Coleg hefyd yn gwrthod derbyn unrhyw geisiadau pellach oddi wrth yr ysgol/adran academiaidd am hyd at dair blynedd.
5. Cyfrifoldeb y sefydliad yw gwirio gallu ymgeiswyr i gyflawni'r amod hwn yn llwyddiannus a bydd y sefydliad yn tystio i hynny wrth gyflwyno cais i'r Coleg.
6. Os wrth ystyried cais y teimla'r panel dyfarnu fod angen hyfforddiant ieithyddol ar yr ymgeisydd cyn y gellir argymhell y dyfarniad, ceidw'r Coleg yr hawl i osod hyfforddiant ieithyddol yn amod o'r cyllido.
7. Cyfrifoldeb y sefydliad hefyd fydd sicrhau fod o leiaf un o oruchwylwyr y prosiect ymchwil arfaethedig yn gymwys i oruchwyllo trwy gyfrwng y Gymraeg. Os bydd un neu ragor o'r tîm goruchwyllo arfaethedig yn ddi-Gymraeg, disgwylir i'r cais ddangos yn glir sut fydd y broses a'r trefniadau goruchwyllo yn caniatáu i'r ymchwil ddigwydd yn naturiol ac yn ddirwystr trwy gyfrwng y Gymraeg, heb osod baich ychwanegol ac annheg ar ddeiliad yr ysgoloriaeth. Dylai unrhyw brosesau mewnol yn y brifysgol i adolygu cynnydd (e.e. cyflwyno adroddiadau, cwblhau cyfnod prawf er mwyn symud i Ran 1 i Ran 2, ayyb) hefyd gymryd iaith yr ymchwil i ystyriaeth, heb osod baich ychwanegol ac annheg ar ddeiliad yr ysgoloriaeth. Wrth gyflwyno cais disgwylir i'r adran/ysgol academiaidd awgrymu

enwau hyd at 3 unigolyn addas a fyddai'n gymwys fel arholwr allanol ac yn gallu arholi'r traethawd doethurol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Pwy sy'n gymwys i ymgeisio

8. I fod yn gymwys ar gyfer ysgoloriaeth, rhaid i'r ymgeiswyr fod yn raddedig o sefydliad addysg uwch cydnabyddedig. Fel arfer, bydd ganddynt radd anrhydedd yn rhan uchaf yr ail ddsbarth (2.i) o leiaf, ac wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs ôl-radd wedi ei addysgu cyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn pan fydd yr ysgoloriaeth yn cychwyn. Caniateir ceisiadau hefyd gan unigolion a fydd yn cofrestru'n syth ar raglen ymchwil ôl-radd (h.y. heb gymhwyster ôl-radd blaenorol) dim ond lle mae hynny'n arferol oddi fewn i'r ddisgyblaeth. Bydd cymwysterau eraill yn cael eu hystyried mewn achosion eithriadol yn unig.
9. Y sefydliad lle lleolir y dyfarniad a fydd yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer arolygu deiliaid yr ysgoloriaethau. Bydd y trefniadau hyn yn cyfateb i drefniadau mewnol y sefydliadau ac i God Ymarfer yr ASA (QAA) ar gyfer Graddau Ymchwil.
10. Croesewir ceisiadau gan unigolion sy'n dymuno astudio ar gyfer doethuriaeth yn llawn-amser neu'n rhan-amser. Caiff gwerth ysgoloriaethau rhan-amser eu haddasu *pro rata*. Fodd bynnag, ni fydd modd cyllido cynllun astudio sy'n llai na 0.5 o amser deiliad ysgoloriaeth, os dymunir astudio yn rhan-amser.

Disgwyliadau ychwanegol ar ddeiliaid

11. Disgwylir i ddeiliaid yr ysgoloriaethau ymgymryd ag unrhyw weithgareddau sydd yn arferol ar gyfer myfyrwyr ymchwil, megis dilyn unrhyw hyfforddiant sy'n ofynnol, mynychu cynadleddau academaidd ac, os yn berthnasol, cyhoeddi a denu nawdd allanol.
12. Bydd disgwyl i ddeiliaid gyfrannu at yr addysgu ar raglenni israddedig drwy gyfrwng y Gymraeg (hyd at 5 awr yr wythnos, neu dim mwy na 60 awr mewn blwyddyn) o fewn eu hysgolion/adrannau academaidd yn ail a thrydedd flwyddyn eu dyfarniad. Ni fydd deiliaid, fel arfer, yn ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau addysgu yn y flwyddyn gyntaf. Yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, dylai nifer yr oriau adlewyrchu natur y gwaith addysgu (a fydd fel arfer yn seminarau Rhan Un, tiwtorialau esboniadol, gwaith arddangos mewn labordy, ayyb) a'r gwaith paratoi a fydd angen. Dylai'r oriau addysgu gael eu trafod a'u cytuno gyda'r deiliad ar ddiwedd y flwyddyn academaidd flaenorol, a hefyd gyda'r Coleg. Fodd bynnag, dylid sicrhau nad yw'r gofynion addysgu yn gorlethu'r deiliaid na'u rhwystro rhag cwblhau eu rhaglen ymchwil ac ennill y cymhwyster PhD cyn gynted â phosib.

13. Bydd yr ysgol/adran academiaidd yn talu'r deiliad am yr addysgu hwn fesul awr yn unol â'r cyfraddau arferol a delir i fyfyrwyr ôl-radd. Ni fydd deiliaid yn addysgu drwy gyfrwng y Saesneg o dan unrhyw amgylchiadau.
14. Bydd yn ofynnol i bob deiliad fynychu Rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil y Coleg. Bydd hyn yn cynnwys mynychu isafswm o 14 gweithdy hyfforddi ym mlwyddyn gyntaf yr ysgoloriaeth, ac yna saith gweithdy hyfforddi'r flwyddyn yn y ddwy flynedd ddilynol, yn ogystal â mynychu cynhadledd ymchwil flynyddol y Coleg yn ystod bob blwyddyn yr ysgoloriaeth.
15. Bydd yn ofynnol i bawb sy'n derbyn ysgoloriaeth gan y Coleg sefyll Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg yn ystod cyfnod eu dyfarniad (oni bai eu bod eisoes wedi cwblhau'r Dystysgrif yn llwyddiannus fel myfyriwr israddedig). Yn ystod cyfnod y dyfarniad, anogir deiliaid sydd am loywi a chryfhau eu Cymraeg i ddilyn cwrs hyfforddiant ffurfiol addas oddi fewn i'w sefydliad. Bydd y Coleg yn darparu cefnogaeth hefyd ar ffurf adnoddau rhyngweithiol a chyfres o weithdai a sesiynau paratoi ar gyfer gwahanol elfennau'r asesiad.
16. Anogir deiliaid ysgoloriaethau i gyfrannu at weithgareddau sy'n hyrwyddo darpariaeth ac ysgolheictod drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn eu disgyblaethau, gan gynnwys cyfranogi mewn gweithgareddau i hyrwyddo a marchnata'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn eu sefydliad, a gweithgareddau cenedlaethol a drefnir gan y Coleg.
17. Bydd disgwyl i ddeiliaid gyhoeddi ffrwyth eu hymchwil yn y Gymraeg. Amod o'r cyllido yw bod pob deiliad ysgoloriaeth yn darparu erthygl academiaidd fer yn y Gymraeg (600 - 1,000 gair) yn seiliedig ar eu prosiect ymchwil i'w gyhoeddi yn *Gwerddon Fach* (a thrwy unrhyw gyfrwng cyhoeddi arall y tybia'r Coleg sy'n briodol). Anogir deiliaid hefyd i gyhoeddi eu gwaith mewn unrhyw gyfnodolion ysgolheigaidd cyfrwng Cymraeg sy'n gweddu i'w maes, a/neu mewn rhifyn o e-gyfnodolyn *Gwerddon*.
18. Mae'r Coleg yn cadw archif o draethodau doethurol sydd wedi cael eu noddi drwy'r cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil. Bydd disgwyl i bob deiliad ddarparu copi digidol o'r drafft terfynol o'u thesis i'r Coleg oddi fewn i wyth wythnos wedi iddynt raddio gyda PhD (h.y. y dyddiad ffurfiol y byddant yn matriciwleiddio yn eu sefydliad). Bydd y Coleg yn cadw'r hawl i osod copi o'r thesis mewn archif priodol yn ei Lyfrgell ar-lein.

Monitro cynnydd

19. Arolygir cynnydd yn ofalus drwy gydol cyfnod yr ysgoloriaeth. Bydd disgwyl i'r deiliad a'r ysgol/adran academiaidd gwblhau adroddiad monitro blynyddol y

Coleg yn cadarnhau y bu cynnydd rhesymol yn y gwaith ymchwil a bod y deiliad yn debygol o gwblhau a chyflwyno ar amser, neu'n nodi pa gamau a gymerir i sicrhau bod y deiliad yn cwblhau yn llwyddiannus oddi fewn i amserlen ddiwygiedig.

20. Pe bai sefyllfa'n codi lle bod amodau'r cynllun yn cael eu torri mewn unrhyw ffordd, bydd y cyfrifoldebau cyllidol am yr ysgoloriaeth yn trosglwyddo o'r Coleg i'r sefydliad. Dylai sefydliadau fod yn ymwybodol, felly, y gallai fod disgwyl iddynt gynnal yr ysgoloriaeth eu hunain mewn amgylchiadau o'r fath, neu derfynu'r dyfarniad.

Rheoliadau

21. Mae rheoliadau llawn yn bodoli ar gyfer y cynllun, a gellir derbyn copi oddi wrth y Coleg. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn dilyn patrwm rheoliadau'r cynghorau ymchwil, ac yn cynnwys rheoliadau mewn perthynas â chyfnodau mamolaeth, cyfnodau o salwch, gwyliau ac ati.

Telerau cyllido

22. Ariennir ysgoloriaethau am gyfnod o dair blynedd ac ar gyfer cefnogi ymchwil ar gyfer doethuriaeth yn unig. Ni fydd yr ysgoloriaethau hyn yn cyllido astudiaethau gradd Meistr (heblaw pan fydd rhaid i unigolyn gofrestru'n ffurfiol ar raglen Meistr a fydd yn trosglwyddo o fewn blwyddyn i ail flwyddyn rhaglen doethurol).
23. Bydd yr ysgoloriaethau yn gyfwerth yn ariannol â'r ysgoloriaethau ôl-raddedig a ddyfernir gan y cynghorau ymchwil ac yn codi'n briodol fesul blwyddyn i adlewyrchu unrhyw gynnydd yng ngwerth ysgoloriaethau'r cynghorau ymchwil. (Gw. gwefan UKRI am y manylion ariannol cyfredol). Bydd y cynllun yn darparu cyllid ar gyfer cyfrannu at:
 - (i) ffioedd safonol i'r sefydliad, a
 - (ii) grant cynhaliaeth sydd i'w dalu i'r deiliad.

Disgwylir i sefydliadau hysbysu'r Coleg o'u ffioedd ar gyfer y flwyddyn academaidd sy'n dilyn erbyn 1 Medi.

24. Mae'r cynllun yn cyfrannu at gostau tiwtora a chofrestru'r myfyriwr ac yn talu hwn yn uniongyrchol i'r sefydliad. Nid yw'r ffioedd safonol yn cynnwys costau llety, y dylid eu talu o'r grant cynhaliaeth. Ni fydd unrhyw daliad ychwanegol ar gyfer costau unrhyw arholiadau, arian gwarant, neu unrhyw flaendal a ad-delir maes o law. Nid yw'r cynllun ychwaith yn talu am gostau teipio na rhwymo traethawd, nac unrhyw ffioedd perthynol i gyrsiau hyfforddi heblaw am y rheiny

a drefnir o dan nawdd y cynllun ac unrhyw gostau a delir o'r cyllid ychwanegol a nodir o dan (26) isod.

25. Disgwylir i'r sefydliadau ddarparu cefnogaeth lawn i ddeiliaid yr ysgoloriaethau, yn gyfwerth i'r hyn a fyddai ar gael i fyfyrwyr ymchwil wedi'u cyllido drwy ddulliau eraill, e.e. swyddfa ac adnoddau cyfrifiadurol.
26. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys cyllid ychwanegol er mwyn cefnogi gwaith maes a/neu waith labordy, mynychu cynadleddau neu gyfrannu at gostau ymchwil eraill. Bydd modd hawlio hyd at £500 y flwyddyn oddi wrth y Coleg fel arfer ar gyfer costau o'r fath. Anogir sefydliadau i ddarparu cyllid cyfatebol o'u hadnoddau eu hunain at yr un defnydd. Os bydd achos i ddarparu swm mwy sylweddol yn flynyddol, bydd rhaid nodi hynny yn y cais a disgwylir i'r sefydliad hefyd ymrwymo i ddarparu swm cyfatebol i'r hyn a geisir gan y Coleg. Os bydd modd denu arian allanol i gyfrannu'n rhannol at y costau ychwanegol arfaethedig, dylid nodi'n glir yn y cais pa gorff fydd yn cyfrannu at y costau a ddarparu sicrwydd o'r cyllid a ddarperir. Mae'n bosib na fydd modd darparu cyllid ychwanegol i bob dyfarniad, ac os bydd nifer o ddyfarniadau ag iddynt gostau ychwanegol sylweddol ni fydd modd dyfarnu'r nifer arfaethedig o ysgoloriaethau.
27. Ni fydd y cynllun yn ariannu unrhyw estyniadau os na fydd y ddoethuriaeth wedi ei chwblhau'n llwyddiannus oddi fewn i dair blynedd y cyllido.

Ymwadiad

28. Bydd y Coleg yn cadw'r hawl i osod amodau a thelerau, nad ydynt o reidrwydd wedi eu nodi yn y ddogfen hon, ar gyfer unrhyw ysgoloriaeth a gyllidir yn rhannol neu'n gyfan gwbl gan y Coleg.

Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil 2024/25

Atodiad A

Meysydd blaenoriaeth

1. **Ysgoloriaeth ym maes y 'Gymraeg mewn Addysg'**. Fel a nodir yng nghymal 19 o gylchlythyr cylch dyfarnu 2024/25 (Proses Ymgeisio), croesewir ceisiadau am brosiectau ymchwil ar unrhyw thema neu destun sy'n ymwneud ag addysgu'r Gymraeg a datblygu sgiliau iaith Gymraeg mewn ysgolion neu ymhlith y gweithlu addysg.
2. Gall hyn gynnwys y Gymraeg fel pwnc, addysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, gweithgareddau cyfoethogi, a gall gynnwys elfen gymharol gyda ieithoedd mewn cyd-destunau eraill.
3. Er enghraifft, gall prosiect ymchwil edrych ar destunau neu themâu megis (ond heb fod yn gyfyngedig i):
 - Pa gyfuniad o ddulliau addysgu, gweithgareddau all-gyrsiol/anffurfiol, a 'negeseuon' sydd fwyaf effeithiol wrth ddarbwylo'r sawl sy'n ddi-hyder yn eu Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yng nghyd-destun astudiaethau neu ymchwil addysg uwch?
 - Sut y gellid defnyddio addysgeg Trawsieithu yn effeithiol mewn addysg uwch? Gan gynnwys yng nghyd-destun ceisio denu carfannau sy'n ddi-hyder yn eu Cymraeg at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog; ac i greu unigolion sy'n hyderus yn y ddwy iaith wrth drafod eu maes arbenigol.
4. Cyfrifoldeb y sefydliad sy'n ymgeisio fydd sicrhau bod y prosiect ymchwil a gynigir yn ddigon ymestynnol ac yn briodol ar lefel doethurol, yn wreiddiol, ac yn seiliedig ar fethodoleg sy'n ysgolheigaidd gadarn.